

# Aseiad Amgylcheddol Strategol yng Nghymru

## Canllawiau ar Aseiad Amgylcheddol Strategol

Mae'r Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol isod (a gyhoeddwyd gan yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth yr Alban, ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon) yn cynnig canllawiau cyffredinol ar sut i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb wrth asesu cynllun neu raglen sy'n dod o dan gyfrifoldeb y Gyfarwyddeb.

Dylid darllen y canllawiau ar y cyd â'r Gyfarwyddeb a Rheoliadau Cymru. Ceir trosolwg o brif dasgau a champau Aseiad Amgylcheddol Strategol yn Adran 5, tudalen 26 o'r canllawiau.

## Cipolwg ar Aseiad Amgylcheddol Strategol yng Nghymru

### Natur y Rheoliadau

- Mae'r rheoliadau'n gweithredu gofynion y Gyfarwyddeb mor uniongyrchol ag y bo modd.
- Maent i gyd yn gyffredinol ac yn effeithio ar bob cynllun a rhaglen sydd o fewn cwmpas y Gyfarwyddeb yn gyfartal (hynny yw, nid ydym yn gwneud rheoliadau sy'n benodol i feysydd unigol).
- Maent yn effeithio ar gynlluniau a rhaglenni sy'n effeithio ar Gymru gyfan neu ar ran ohoni, ond nid ar unrhyw ran arall o'r DU.
- Mae cynlluniau a rhaglenni sy'n effeithio ar rannau eraill o'r DU yn ogystal â Chymru yn dod o dan Rheoliadau'r DU, sy'n gorfodi rheoliadau tebyg iawn.

### Cwmpas y Rheoliadau: Pa Gynlluniau a Rhaglenni sy'n amodol ar Aseiad Amgylcheddol Strategol?

Mae'r Rheoliadau'n effeithio ar gynlluniau neu raglenni:

- Sy'n cael eu paratoi gan awdurdodau (wedi'u diffinio fel 'awdurdodau cyfrifol' yn Rheoliadau Cymru) ym meysydd amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd, ynni, diwydiant, trafndiaeth, rheoli gwastraff, rheoli dŵr, twristiaeth, cynllunio gwlad a thref, a chynllunio defnydd tir

- Sy'n gosod y fframwaith ar gyfer cydsynio â datblygiadau yn y dyfodol
- Sy'n ofynnol o dan ddarpariaeth ddeddfwriaethol, reoleiddiol neu weinyddol, ac sy'n un ai yn ddarostyngedig i gael eu paratoi a/neu eu mabwysiadu ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol, neu sydd wedi cael eu paratoi i'w mabwysiadu gan awdurdod trwy weithdrefn ddeddfwriaethol (h.y. Deddf Seneddol neu Reoliadau)

Yn ogystal, mae angen Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gynllun neu raglen sydd ag angen asesiad o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Bydd cynllun neu raglen o'r fath sy'n ddarostyngedig i'r Gyfarwyddeb, ond a fydd yn defnyddio ardal fach, neu sy'n addasiad bach i gynllun neu raglen, yn ddarostyngedig i Asesiad Amgylcheddol Strategol os yw'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd.

Mae'r Canllaw Ymarferol yn cynnwys rhestr ddangosol o gynlluniau a rhaglenni yn Atodiad 1, tudalen 44, sydd wedi cael eu pennu i fod yn ddarostyngedig i'r Gyfarwyddeb. Bydd siart lif ar dudalen 13 yn helpu awdurdodau cyfrifol i benderfynu a oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer cynllun neu raglen. Os oes amheuaeth o ran a yw'r Gyfarwyddeb yn gymwys, bydd yn rhaid i awdurdodau cyfrifol farnu drostynt eu hunain, yn seiliedig ar delerau'r Rheoliadau.

## Beth mae'r Rheoliadau yn ei ofyn?

---

Mae'n rhaid i awdurdod cyfrifol:

- Benderfynu, mewn ymgynghoriad lle bo angen â'r cyrff ymgynghori (Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadw), a oes cynllun neu raglen yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau ac a oes angen cynnal asesiad amgylcheddol
- Sicrhau - os oes ei angen - fod asesiad amgylcheddol yn cael ei gynnal a bod adroddiad amgylcheddol yn cael ei lunio sy'n cynnwys y cynigion yn y cynllun neu'r rhaglen ac opsiynau amgen ymarferol
- Ymgynghori â'r cyrff ymgynghori – Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadw – am gwmpas yr adroddiad amgylcheddol
- Ymgynghori â'r cyrff hynny a'r cyhoedd am y cynllun neu raglen a'r adroddiad amgylcheddol
- Ystyried yr adroddiad amgylcheddol ac ymatebion i'r ymgynghoriad cyn mabwysiadu unrhyw gynllun neu raglen
- Cyhoeddi gwybodaeth am fabwysiadu'r cynllun neu raglen, gan gynnwys ym mha ffordd mae'r adroddiad amgylcheddol ac ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried
- Monitro'r effeithiau amgylcheddol o weithredu'r cynllun neu raglen

Dylai Asesiad Amgylcheddol Strategol gael ei lwyr integreiddio i'r broses o greu cynllun neu raglen o'r dechrau un, ac ar bob cam penderfynu wedi hynny. Dylai gael ei ddefnyddio hefyd wrth ddatblygu'r trefniadau ar gyfer monitro gweithredu'r cynllun, er mwyn nodi unrhyw broblemau a llywio'r adolygiad nesaf neu gynllun newydd.

## **Beth mae'n rhaid i'r Adroddiad Amgylcheddol ei gynnwys?**

---

Mae'n rhaid i'r Adroddiad Amgylcheddol gynnwys gwybodaeth y byddai'n rhesymol ei disgwyl wrth ystyried gwybodaeth bresennol a methodau asesu, yn ogystal â'r cynnwys a'r lefel o fanyldeb sydd yn y cynllun neu raglen.

Mae'r wybodaeth sydd ei hangen yn cynnwys:

- Effeithiau arwyddocaol tebygol y cynllun neu raglen, a phob opsiwn amgen a ystyrir, ar yr amgylchedd – gan gynnwys bioamrywiaeth, y boblogaeth, iechyd dynol, ffawna, fflora, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol, y tirlun a'r rhyngberthynas rhwng y ffactorau uchod. Dylai'r effeithiau hyn gynnwys: effeithiau eilaidd; cynyddol; synergyddol; tymor byr, canolig a hir; parhaol a dros dro; a chadarnhaol a negyddol.
- Amlinelliad o'r rhesymau dros ddewis yr opsiynau amgen a nodwyd.
- Y camau a ragwelir er mwyn atal, lleihau a gwrthbwysu mor llawn ag y bo modd unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol ar yr amgylchedd yn sgil gweithredu'r cynllun neu raglen.

## **Ble y gellir dod o hyd i ddata ar yr amgylchedd?**

---

Mae'r Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yn cynnig nifer o ffynonellau lle ceir gwybodaeth berthnasol ar yr amgylchedd. Gellir defnyddio amrywiaeth o ffynonellau eraill er mwyn cael gafael ar wybodaeth amgylcheddol, yn dibynnu ar y cynllun neu raglen a asesir. Dylid ystyried cyfyngiadau posibl y data (e.e. eu dibynadwyedd a'u dilysrwydd). Ceir dolen i ffynonellau a argymhellir o wybodaeth sylfaenol yn Atodiad 4, tudalen 52.

## **Beth yw'r gofynion o ran yr ymgynghoriad?**

---

Mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol ymgynghori â'r cyrff ymgynghori am gwmpas yr adroddiad amgylcheddol.

Pan fydd yr adroddiad wedi'i gwblhau, mae'n rhaid i'r awdurdod ymgynghori â'r cyrff hynny, a'r cyhoedd, am y cynllun neu raglen a'r adroddiad amgylcheddol. Mae'r cyhoedd

yn cynnwys pobl a sefydliadau – gan gynnwys cyrff perthnasol yn y sector gwirfoddol – sy'n debygol o gael eu heffeithio gan gynllun neu raglen, neu sydd â diddordeb ynddo/ynddi. Fel arfer, ymgynghorir â chyrrff cyhoeddus eraill hefyd.

Pan fydd cynllun neu raglen yn debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd mewn aelod-wladwriaeth arall o'r Undeb Ewropeaidd, mae'n rhaid ymgynghori â'r wladwriaeth honno.

Ar ôl y broses ymgynghori ac ar ôl gwneud y penderfyniad ynglŷn â'r cynllun neu raglen, mae'n rhaid i'r awdurdod darparu gwybodaeth i'r ymgynghorwyr.

Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â swyddogaeth yr awdurdodau cyfrifol a'u dyletswyddau ymgynghorol yn Adran 3, tudalen 16 o'r Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol.

## Cyrff Ymgynghori

---

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi pennu Cadw a

Chyfoeth Naturiol Cymru yn Gyrff Ymgynghori mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol

(sy'n cyfeirio at 'awdurdodau sydd â chyfrifoldeb amgylcheddol),

ac mae'n rhaid ymgynghori â'r cyrff hyn yn ystod y broses Asesiad Amgylcheddol Strategol.

- **Diben cyfreithiol Cyfoeth Naturiol Cymru** yw *sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn ffordd gynaliadwy, heddiw ac yn y dyfodol.*

Sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013, ac ef yw prif ymgynghorydd Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru ym maes yr amgylchedd a rheoli adnoddau naturiol Cymru. Mae'n cyflawni'r rôl hon fel ymgynghorydd statudol ac ymgynghorydd arbenigol am bolisi a chyflenwad, yn seiliedig ar ei gronfa eang o dystiolaeth a'i waith ehangach. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni nifer o swyddogaethau yn ogystal â'i rôl ymgynghorol: fel rheoleiddiwr ar gyfer dros 30 o gyfundrefnau; fel rheolwr tir dros ystadau coedwigaeth, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, ac asedau amddiffyn rhag llifogydd Llywodraeth Cymru; ac fel ymatebwr Categori 1 ar gyfer nifer o ddigwyddiadau amgylcheddol. Mae'n cyflogi dros 1,900 aelod o staff medrus ag arbenigol sy'n helpu i gyflawni ei ystod lawn o gyfrifoldebau. [www.naturalresourceswales.gov.uk](http://www.naturalresourceswales.gov.uk)

- **Cadw** yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, sydd â chyfrifoldeb am gadw a hyrwyddo amgylchedd hanesyddol Cymru. Gall Cadw roi cyngor ar faterion sy'n perthyn i'r amgylchedd hanesyddol ac ar elfennau'r dreftadaeth ddiwylliannol a'r tirlun hanesyddol. Mae'n cadw gwybodaeth am henebion rhestredig, safleoedd llongddrylliadau dynodedig, tirluniau hanesyddol, parciau a gerddi hanesyddol, ac adeiladau rhestredig. Cedwir

gwybodaeth fwy manwl am rai o'r rhain, a dynodiadau cysylltiedig eraill fel ardaloedd cadwraeth, gan awdurdodau lleol. Mae Ymddiriedaethau Archeolegol Rhanbarthol hefyd yn cadw gwybodaeth am safleoedd henebion a thirluniau hanesyddol nad yw'n rhestredig. [www.cadw.wales.gov.uk](http://www.cadw.wales.gov.uk)

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadw wedi cynhyrchu nodyn sy'n disgrifio'r gwasanaethau a'r safonau y gall awdurdodau cyfrifol eu disgwyl gan Gyrrff Ymgynghori Cymru wrth iddynt ymgynghori mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/UE am 'asesu effaith rhai cynlluniau a rhaglenni ar yr amgylchedd' (y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol). **“Cyrrff Ymgynghori yng Nghymru – Gwasanaethau a Safonau ar gyfer Awdurdodau Cyfrifol”**.

## Sut i fonitro effeithiau gweithredu

---

Mae monitro effeithiau amgylcheddol (gweler Atodiad 10, tudalen 86) ar ôl mabwysiadu cynllun neu raglen yn un o ofynion y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol. Mae'n caniatáu nodi effeithiau niweidiol anrhagweledig a, lle y bydd angen, camau gweithredu i'w datrys. Mae monitro hefyd yn cyfrannu at wybodaeth sylfaenol ar gyfer cynlluniau neu raglenni yn y dyfodol.